OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 3256

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Sylweddau Annymunol Penodol) (Cymru) 2006

**Diwygiadau i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005(**1**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ar ôl rheoliad 24, mewnosoder y rheoliad canlynol—

"**24A.**—(1) At ddibenion cyflawni ymchwiliadau, yn unol ag Erthygl 4.2 o Gyfarwyddeb 2002/32, er mwyn penderfynu ffynhonnell y sylweddau annymunol hynny a restrir yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno pan fydd trothwyon gweithredu a bennir yn yr Atodiad hwnnw wedi cael eu cyrraedd, caiff swyddog awdurdodedig, ar bob adeg resymol ac wrth ddangos, os gofynnir amdani, ddogfen a ddilyswyd yn briodol sy'n dangos ei awdurdod, fynd i mewn i unrhyw fangre (nad yw'n fangre a ddefnyddir fel annedd yn unig) lle mae gan y swyddog achos rhesymol dros gredu bod bwyd anifeiliaid yn cael neu wedi cael ei weithgynhyrchu neu ei gynhyrchu, wedi'i roi ar y farchnad neu'n cael ei gadw er mwyn ei roi ar y farchnad, ei gynnwys mewn unrhyw gynnyrch arall neu ei ddefnyddio.

(2) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn —

(a) mynd â'r personau eraill hynny gydag ef y mae'r swyddog yn tybio eu bod yn angenrheidiol ac unrhyw gyfarpar;

(b) arolygu unrhyw beth y mae gan y swyddog hawl i'w arolygu o dan reoliad 24(5), ac

(c) cymryd sampl yn y fangre honno o unrhyw ddeunydd y mae'n ymddangos i'r swyddog sy'n fwyd anifeiliaid a weithgynhyrchwyd, a gynhyrchwyd, a roddwyd ar y farchnad neu y bwriedir ei roi ar y farchnad neu sy'n ddeunydd a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid.

(3) Os bydd swyddog awdurdodedig er mwyn cymryd sampl yn unol â pharagraff (2)(c) yn cymryd deunydd o un cynhwysydd neu fwy ohonynt y mae pob un ohonynt yn pwyso dim mwy na chwe chilogram, ac sydd wedi cael eu datgelu i'w gwerthu drwy fanwerthu, caiff perchennog y cynhwysydd neu'r cynwysyddion ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog awdurdodedig brynu'r cynhwysydd neu'r cynwysyddion ar ran yr awdurdod y mae'r swyddog yn gweithio iddo.

(4) Mae gan swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn yr un hawliau i gael gweld, arolygu a chopïo cofnodion, gan gynnwys cofnodion a gedwir ar gyfrifiadur neu a gynhyrchir ganddo, fel a bennir ym mharagraff (9)(a) a (b) a (10)(c) o reoliad 24.

(5) Mae paragraff (14) o reoliad 24 yn gymwys i'r pwer mynediad o dan y rheoliad hwn fel y mae'n gymwys i'r cyfryw bwerau o dan y rheoliad hwnnw.

(**1**) O.S. 2005/3368 (Cy.265).

(6) Ystyr Cyfarwyddeb 2002/32 yw Cyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor(**2**) ar sylweddau annymunol mewn bwyd aneifiliaid, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2003/57/EC(**3**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/100(**4**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/8/EC(**5**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/86/EC(**6**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/87/EC(**7**) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 2006/13/EC(**8**)."

(1) Ym mharagraff (4) o reoliad 27, ar ôl yr ymadrodd "reoliad 24" mewnosoder "neu reoliad 24A".

(**2**) OJ Rhif L140, 30.5.2002, t.10.
(**3**) OJ Rhif L151, 19.6.2003, t.38.
(**4**) OJ Rhif L285, 1.11.2003, t.33.
(**5**) OJ Rhif L27, 29.1.2005, t.44.
(**6**) OJ Rhif L318, 6.12.2005, t.16.
(**7**) OJ Rhif L318, 6.12.2005, t.19.
(**8**) OJ Rhif L32, 4.2.2006, t.44. Cyflwynodd y Gyfarwyddeb ddiwygio hon drothwyon gweithredu a'r gofyniad i ymchwilio.